YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

Hydref 12 2024

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Llangrannog!**
Cafodd blwyddyn 7 amser gwych yn Llangrannog yr wythnos diwethaf. Roedd ymddygiad y disgyblion yn arbennig o dda, ac fe wnaethant ymroi'n llawn i bob gweithgaredd. Roedd yn hyfryd clywed bod y plant yn mwynhau eu hunain gan ddefnyddio'r Gymraeg, ac hefyd yn manteisio ar y cyfle i gyfarfod â ffrindiau newydd o ysgolion cynradd eraill yn ogystal ag o flwyddyn 12. Diolch i'r holl staff am eu hymdrechion mewn ychydig ddyddiau blinedig iawn!


*Mwynhau brecwast yn Llangrannog*


*Ystafell Mr Roger Boore*

**Ymgyrch darllen**
Eleni, rydym am roi pwyslais i'n holl ddisgyblion ar y pwysigrwydd o ddarllen. Yn yr ysgol mi fyddwn yn datblygu medrau disgyblion i ddarllen er mwyn deall, datblygu uwch sgiliau darllen, ond yn fwyaf pwysig, darllen er mwyn mwynhad. Gan hynny, mae ein dyddiau hyfforddiant wedi canolbwyntio ar strategaethau a chreu cyfleoedd i ddatblygu medrau darllen mewn gwersi. Rydym yn annog ein teuluoedd i ddarllen gyda'u plant yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Gall darllen gyda'ch plant, hyd yn oed pan fyddant yn hŷn, fod yn arbennig o effeithiol.

**Miri Melyn**
Ar y 10fed o Hydref, cefnogwyd yr elusen *'Young Minds'* gan yr ysgol trwy godi arian ac ymwybyddiaeth am iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Anogwyd disgyblion i wisgo ategolion melyn gyda'u gwisg ysgol, yn ogystal â phrynu cacennau o'n stondin gacennau. Pwrpas yr ymgyrch yw atgoffa pobl ifanc nad ydyn nhw ar eu pen eu hunain, ac i godi ymwybyddiaeth am y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n cael trafferthion gyda heriau iechyd meddwl.


*Gwerthu cacennau ar gyfer Miri Melyn*


*Cerddorfa'r clwstwr*

**Cerddorfa Clwstwr**
Ar y 9fed o Hydref, croesawyd disgyblion o bob un o'n hysgolion cynradd clwstwr i gymryd rhan mewn perfformiad cerddorfa clwstwr. Roedd y disgyblion wedi gweithio'n galed drwy'r dydd i baratoi perfformiad a gafodd ei fwynhau gan staff a theuluoedd fel ei gilydd. Da iawn bawb!

**Gwobr Dug Caeredin**
Yr wythnos diwethaf, lansiwyd ein cynllun Dug Caeredin i ddisgyblion blwyddyn 9 (Gwobr Efydd) a 10 (Gwobr Arian). Mae hwn yn gyfle gwych i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n datblygu cymeriad, ac i ennill cymhwyster gwerthfawr dros ben. Rydym wedi herio disgyblion i ymgymryd a'r tri her: gwirfoddoli, dysgu sgil a chwaraeon ac mae mwy o wybodaeth ar gael ar eu safle Classroom Blwyddyn. Rydym yn annog ein myfyrwyr i ystyried gwneud cais i gymryd rhan!


*Disgyblion ar alldaith Dug Caeredin*

**Cyfle am swydd yn ein ffreutur!**
Mae ein tîm arlwyo gwych yn recriwtio aelodau staff newydd. Os oes gennych chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, ddiddordeb mewn swydd yn gweithio yn ein ffreutur, cysylltwch â ni!



**Cynhadledd 'Global Girl' – Llundain**
Roedd yn wych gweld rhai o'n myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 yn mynychu Cynhadledd *Merched Byd-Eang* yn Llundain ar y 11eg o Hydref. Roedd y gynhadledd yn gyfle gwych i archwilio'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu merched ledled y byd, gan gynnwys trafodaethau ar arweinyddiaeth, hawliau merched, a chyflawniad addysgol. Cafodd ein myfyrwyr brofiad ysbrydoledig wrth glywed gan arweinwyr byd-eang ac wrth gymryd rhan mewn gweithdai rhyngweithiol a fydd yn eu helpu i ddatblygu fel arweinwyr y dyfodol.

**Taith i Millfield**
Hyfryd oedd gweld rhai o'n disgyblion yn teithio draw i Ysgol Millfield yn Street, Gwlad yr Haf ar gyfer gemau pêl rhwyd. Cafwyd croeso cynnes iawn i'r ysgol, a hefyd nifer o gemau cystadleuol – da iawn ferched!



*Disgyblion bl.11 yn cystadlu ym Millfield*

**Chromelyfrau i flwyddyn 8**
Byddwn yn dechrau dosbarthu gluniaduron i ddysgwyr Blwyddyn 8 yn ystod wythnos nesaf (14-18 o Hydref). Diolch i bawb am y gefnogaeth gyda'r prosiect cyfraniad newydd hwn. Gofynnwn yn garedig i rieni i gefnogi drwy sicrhau bod y ddyfais wedi'i wefru yn barod ar gyfer dod i'r ysgol yn ddyddiol.

**Caffi Lles Rhieni**
Ar bnawn Mercher, 16 Hydref 2-3pm, bydd ein cyfarfod cyntaf eleni o'n darpariaeth *Caffi Lles* i Rieni. Yn ystod y prynhawn anffurfiol bydd cyfle i gwrdd a chlywed am ein timau cefnogi lles a bugeiliol.

**Dyddiadau pwysig**
Hydref 14-18 – Blwyddyn 8 yn derbyn eu Chromelyfrau
Hydref 16; Csaffi Les Rhieni yn Glantaf am 2pm
17/18 Hydref – Gweithdai 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' (bl.7)
Hydref 17: Arolwg thematic Estyn ar ymddygiad cadarnhaol
Hydref 18: Dydd Gwisg Anffurfiol: Gwisgo Coch i wrthsefyll Hiliaeth a chyfrannu £1 drwy *ParentPay*
Hydref 23 – Arholiad Perfformio TGAU bl.11
Hydref 24/25 – Arholiad Drama TGAU
Hydref 24 – Noson Agored 6ed Dosbarth – 5-7pm ar gyfer rhieni a disgyblion Bl 11
**Hydref 28 – Hanner tymor**
Tachwedd 6+8 – Cerddorfa Unedig Ysgolion Cyfrwng Cymraeg De Cymru

**I gloi** ein diolch didwyll i Mrs Elinor Patchell am eich chyfraniad estynedig fel Cadeirydd y Corff Llywodraethu yma yng Nglantaf. Rydym yn diolch idi am ei harweiniad didwyll a'i chyngor doeth dros gyfnod helaeth o flynyddoedd fel rhiant a chyfaill ffyddlon i deulu Glantaf. Rydym yn estyn ein dymuniadau gorau i Mrs Iona Edwards fydd yn camu i'r gadair dros y cyfnod nesaf. *Diolch didwyll i chi Mrs Patchell!*

Yn gywir,

Dyfrig G Rees
Dirprwy Bennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



*Mrs I Edwards, Mrs E Patchell, Mr M Evans*